Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad ar y ddogfen drafft

# Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant


## 2024–2030













OGL © Hawlfraint y Goron 2024, Llywodraeth Cymru, WG49876 ISBN digidol 978-1-83625-035-7 ISBN argraffu 978-1-83625-037-1
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



# Cynnwys


**Cyflwyniad** **4**

**Ein gwerthoedd a'n hegwyddorion** **4**

**Ein Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant** **6**

**BLAENORIAETH 1: Mae Diwylliant yn Dod â Ni Ynghyd** **8**

1.1 Dod â chymunedau ynghyd, gan roi sylw i gynhwysiant, amrywiaeth a hygyrchedd 8

1.2 Democratiaeth ddiwylliannol, hawliau diwylliannol, a mynd i'r afael ag anghydbwysedd 9

1.3 Cysylltu drwy ymdeimlad o le 10

1.4 Cysylltu plant a phobl ifanc â diwylliant 10

1.5 Cysylltu'r cenedlaethau 11

**BLAENORIAETH 2: Cenedl Diwylliant** **12**

2.1 Cenedl ddwyieithog ac amlieithog 13

2.2 Diwylliant a llesiant 13

2.3 Twristiaeth ddiwylliannol 14

2.4 Cysylltiadau Diwylliannol a Diplomyddiaeth Ddiwylliannol – Cymru a'r Byd 15

2.5 Dathlu diwylliant 15

**BLAENORIAETH 3: Mae Diwylliant yn Gydnerth ac yn Gynaliadwy** **16**

3.1 Gofalu am ein lleoedd a'n casgliadau diwylliannol 17

3.2 Pŵer technoleg ddigidol 17

3.3 Buddsoddi mewn Ymchwil 19

3.4 Gweithlu'r Sector Ddiwylliant 19

3.5 Diwylliant a Datblygu Cynaliadwy 21

**Sut y gwnaethom ddatblygu'r blaenoriaethau hyn** **23**

**Ein Ffyrdd o Weithio** **23**

**Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol** **24**

## Cyflwyniad

Mae hon yn ddogfen ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn diwylliant yng Nghymru. Yn ei hanfod, mae'n darparu fframwaith polisi ar gyfer ein sectorau cyhoeddus a diwylliannol yng Nghymru, gan ddiffinio'r cyfeiriad strategol ar gyfer sectorau'r celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifau a'r amgylchedd hanesyddol.

Drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) rydym yn cydnabod pwysigrwydd llesiant diwylliannol i wella bywydau pobl. Un o nodau canolog y Ddeddf yw creu Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu, nod y mae'n rhaid ei wreiddio mewn portffolios polisi ar draws y llywodraeth, ar lefel genedlaethol ac ar lefel lleol.

Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant 2024–2030

Mae'r blaenoriaethau'n gosod fframwaith strategol ar gyfer sefydliadau partner a sectorau a meysydd polisi eraill sydd wedi ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo diwylliant. Nid oes modd gwahanu llesiant diwylliannol Cymru oddi wrth ein cymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi, ac mae'n hanfodol ein bod yn cydweithio'n strategol i wella ei rôl o ran gwella bywydau pobl.

Yn y ddogfen hon, rydym yn defnyddio'r geiriau 'sector diwylliant' fel term sy'n cynnwys y sectorau celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd, archifdai a'r sector amgylchedd hanesyddol yng Nghymru. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau strategol hyn, byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'n cyrff hyd braich diwylliannol, sefydliadau sy'n cefnogi'r sector, ac yn gweithredu fel yr asiantaeth ddatblygu ar gyfer y sectorau amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai lleol. Nid ydym yn pennu blaenoriaethau strategol ar gyfer chwaraeon nac ar gyfer y diwydiannau creadigol yng Nghymru, ond disgwylir y bydd y sectorau hyn yn ystyried sut i ymateb i'r ddogfen hon, sut y byddant yn gwreiddio ei dyheadau yn eu cynlluniau strategol a gweithredol, a sut y gallant weithio mewn partneriaeth â'n sectorau i gefnogi, meithrin a hyrwyddo diwylliant.

Datblygwyd y blaenoriaethau hyn yn ystod cyfnod o gyfyngiadau ariannol difrifol. Mae toriadau mewn cyllid dros nifer o flynyddoedd wedi effeithio ar y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae'r sector diwylliant yn teimlo'n fregus ac yn agored i niwed. Mae cyllidebau sy'n gostwng, chwyddiant uchel a phrisiau cynyddol ynni wedi arwain at amgylchiadau ariannol heriol iawn a chanlyniadau pellgyrhaeddol i'r rheini sy'n derbyn arian cyhoeddus, ond rydym yn benderfynol na ddylai hyn gyfyngu ar ein dyheadau hirdymor. Mae'n bwysicach nag erioed ein bod yn amlinellu blaenoriaethau strategol y sector diwylliant. Mae'n bwysig bod modd diweddaru a gwella'r blaenoriaethau a'r dyheadau, gan eu galluogi i ymateb i gynnydd a dysgu ac adlewyrchu pryderon cymdeithasol newydd a allai ddod i'r amlwg yn ystod oes y blaenoriaethau hynny. Rydym yn ymrwymo i ddiweddaru'r ddogfen hon am y tro cyntaf yn 2026 a byddwn yn ei hadolygu'n rheolaidd ar ôl hynny. Ein dyhead o hyd yw y bydd diwylliant yng Nghymru yn ffynnu, yn derbyn adnoddau priodol, a bod yna gynllun buddsoddi strategol hirdymor.

## Ein gwerthoedd a'n hegwyddorion

Llywiwyd y gwaith o ddatblygu'r blaenoriaethau hyn gan bum ffordd gynaliadwy o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru): tymor hir, atal, integreiddio, cydweithio a chynnwys.

Mae'r blaenoriaethau hyn yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg – iaith sy'n perthyn i bawb yng Nghymru, i hanes a diwylliant ein cenedl, ac mae ganddi rôl unigryw ac arwyddocaol i'w chwarae yn nyfodol Cymru.

Yn anad dim, rydym yn cydnabod gwerth annatod diwylliant ac yn ymrwymo i'r egwyddor bod gan bob person yng Nghymru'r hawl i gael mynediad at, i greu, i gymryd rhan, ac i weld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yng ngweithgareddau diwylliannol ein cenedl.

> "Yn anad dim, rydym yn cydnabod gwerth annatod diwylliant ac yn ymrwymo i'r egwyddor bod gan bob person yng Nghymru'r hawl i gael mynediad at, i greu, i gymryd rhan, ac i weld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu yng ngweithgareddau diwylliannol ein cenedl."





# Ein Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant yng Nghymru



## BLAENORIAETH 1: Mae diwylliant yn dod â ni ynghyd

D1: Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol.

D2: Mae democratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol yn ganolog i ddiwylliant yng Nghymru.

D3: Mae diwylliant yn mabwysiadu dull cynhwysol a chytbwys o ddehongli, coffáu a chyflwyno ein gorffennol.

D4: Mae diwylliant yn rhan annatod o greu lleoedd ac o lesiant cymunedol.

D5: Mae diwylliant yn adlewyrchu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc, ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o gyfranogwyr ac arweinwyr diwylliannol.

D6: Mae diwylliant yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cenedlaethau.

## BLAENORIAETH 2: Cenedl diwylliant

D7: Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn adlewyrchu Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlieithog.

D8: Mae llesiant diwylliannol wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y broses o lunio polisi ledled Cymru.

D9: Mae ymgysylltu diwylliannol yn cefnogi llesiant unigolion a chymunedau.

D10: Bydd cyrff diwylliant a threftadaeth yn cydweithio mwy i fanteisio i'r eithaf ar botensial llawn eu timau arbenigol a'u casgliadau, a byddant yn gweithio gyda sectorau eraill i ystyried pŵer diwylliant, a manteisio arno.

D11: Mae diwylliant yn cefnogi twristiaeth; mae twristiaeth yn cefnogi diwylliant. Mae gan ddiwylliant broffil uchel yn y ffordd y caiff ein cenedl ei marchnata i ymwelwyr.

D12: Mae diwylliant wedi'i integreiddio yn y ffordd y mae Cymru'n sefydlu ac yn datblygu cysylltiadau rhyngwladol.

D13: Codir proffil diwylliant yng Nghymru drwy ddathlu a hyrwyddo diwylliant ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.

## BLAENORIAETH 3: Mae diwylliant yn gydnerth ac yn gynaliadwy

D14: Mae ein casgliadau a'n hasedau hanesyddol yn derbyn gofal, ac maent yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu, creadigrwydd, creu lleoedd a llesiant diwylliannol.

D15: Mae gan sefydliadau sy'n gyfrifol am ddiogelu a gofalu am ein casgliadau diwylliannol a'n hasedau hanesyddol ddulliau strategol i gydnabod eu harwyddocâd a'u casglu.

D16: Mae ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn rhan annatod o stori'n gwlad – mae'n cael ei chofnodi, ei chefnogi i ffynnu, a'i rhannu ag eraill er budd cenedlaethau'r dyfodol.

D17: Mae arferion digidol da yn cefnogi ac yn gwella ein diwylliant.

D18: Mae gan ddiwylliant agwedd gydweithredol a hirdymor tuag at ymchwil a chasglu tystiolaeth.

D19: Mae'r sector diwylliant yng Nghymru yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli, gyda gweithlu proffesiynol a medrus.

D20: Mae'r sector diwylliant yn dangos arweinyddiaeth a chydweithio yn ei ddulliau gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy, meithrin cadernid, a mynd i'r afael â phob agwedd ar argyfyngau hinsawdd a natur.



# BLAENORIAETH 1:
## Mae Diwylliant yn Dod â ni Ynghyd

Mae diwylliant yn rhywbeth i bawb, yn ymwneud â phawb, ac yn cael ei greu gan bawb – ei gynwysoldeb, ei hygyrchedd a'i amrywiaeth sy'n ei ddiffinio.

## 1.1 Dod â chymunedau ynghyd, gan roi sylw i gynhwysiant, amrywiaeth a hygyrchedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barchu, diogelu a chyflawni hawl pawb i gael eu cynnwys yn deg yn y gweithgarwch diwylliannol o'u dewis. Mae llawer o bobl eisoes yn elwa o effeithiau cadarnhaol creadigrwydd a chyfranogiad diwylliannol yn eu bywydau bob dydd, ond mae rhwystrau a heriau'n parhau i atal rhai grwpiau a chymunedau rhag cael gafael yn llawn ar y manteision hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo a gwreiddio'r Model Cymdeithasol o Anabledd yng nghyrff y llywodraeth ac mewn cyrff cyhoeddus, ac i chwalu'r rhwystrau i bobl anabl. Mae Hynt, menter Cyngor Celfyddydau Cymru a reolir gan Creu Cymru mewn partneriaeth â Diverse Cymru, yn gynllun hygyrchedd cenedlaethol ar gyfer cwsmeriaid anabl a'u gofalwyr, sydd wedi'i wreiddio yn y Model Cymdeithasol o Anabledd. Mae ymchwil wedi dangos gwerth cymdeithasol ac economaidd Hynt, ac yn sgil y cerdyn gwelwyd cynnydd o 75% yn ymweliadau deiliaid y cerdyn â theatrau[1].

Mae sefydliadau celfyddydol eisoes yn datblygu rhaglenni hyblyg, gan gynnwys perfformiadau talwch beth y gallwch, perfformiadau hamddenol ar gyfer cynulleidfaoedd niwroamrywiol, is-deitlo, cyfieithu a dehongli yn Iaith Arwyddion Prydain. Mae pob rhan arall o'r sector diwylliant hefyd yn gwneud gwaith helaeth gyda grwpiau sydd wedi bod ar y cyrion yn hanesyddol a grwpiau sy'n agored i niwed er mwyn darparu profiadau diwylliannol cynhwysol.

Rydym am ganolbwyntio ar greu cyfleoedd ystyrlon a chynhwysol i bobl ymgysylltu â diwylliant, cymryd rhan mewn gweithgarwch diwylliannol a manteisio ar arbenigedd a brwdfrydedd ein sector diwylliant amrywiol. Rydym am i bawb deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynrychioli yn ein sefydliadau diwylliannol. Rydym eisiau mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag cymryd rhan – boed y rheinny'n rwystrau ffisegol, canfyddiadol neu ariannol, a chymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu. Mae llawer o'r materion hyn yn rhai hirsefydlog ac mae angen ymagwedd benderfynol, ragweithiol a hirdymor at gynhwysiant ac amrywiaeth sy'n ystyried profiad byw pobl sydd â hunaniaethau sy'n cydblethu.

Ein nod yw gwreiddio arferion cwbl gynhwysol a theg ar draws ein sector diwylliant. O gynllun adeiladau i raglennu, i ddefnyddio dulliau cyfathrebu priodol a hyfforddi'r gweithlu, byddwn yn gosod y sylfeini ar gyfer gwasanaethau, digwyddiadau a phrofiadau diwylliannol cynhwysol enghreifftiol.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru yn nodi ein hymrwymiad i greu Cymru wrth-hiliol. Mae'n cydnabod y cyfraniadau hanesyddol a wnaed gan gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, a'r cyfraniadau y maent yn dal i'w gwneud. Mae'r camau gweithredu manwl yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnig fframwaith ar gyfer trawsnewid, gyda gwaith eisoes ar y gweill i sicrhau bod y sector diwylliant yng Nghymru'n gynhwysol ac yn amrywiol.

Hefyd, mae'n ddyhead gan Gymru i fod y wlad fwyaf cyfeillgar i bobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol yn Ewrop, fel y nodir yng Nghynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru.

Mae cyd-destun deddfwriaethol a chyd-destun polisi penodol ar waith yng Nghymru i ddarparu arweinyddiaeth sector go iawn o ran hyrwyddo cynhwysiant, hygyrchedd ac amrywiaeth. Rhaid i'n gweithlu diwylliannol, ein casgliadau, ein mannau a'n lleoedd diwylliannol hyrwyddo Cymru fodern ac amrywiol, gan adlewyrchu'r amrywiaeth o bobl a diwylliannau sy'n byw yn ein gwlad.

### Ein dyhead:

**D1: Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol.**

## 1.2 Democratiaeth ddiwylliannol, hawliau diwylliannol, a mynd i'r afael ag anghydbwysedd

Mae Llywodraeth Cymru am i'r sector diwylliant gofleidio gwerthoedd democratiaeth ddiwylliannol a chefnogi hawliau diwylliannol[2]. Ochr yn ochr â chyflawni eu cyfrifoldebau statudol, dylai'r sector rymuso cymunedau i arwain ar yr hyn sy'n rhoi gwerth diwylliannol iddynt. Rydym yn annog cyrff cenedlaethol ac awdurdodau lleol i werthfawrogi cyfranogiad lleol yn y broses o wneud penderfyniadau – dylai hyn gynnwys unigolion, cymunedau lleol a darparwyr gweithgarwch diwylliannol yr effeithir arnynt gan y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud. Dylai penderfyniadau fod yn seiliedig ar bartneriaethau democrataidd a chyfartal.

Mae egwyddorion democratiaeth ddiwylliannol yn ein hymrwymo i gynnwys pawb yn y broses o benderfynu beth yw diwylliant. Rydym am i hyn gael ei adlewyrchu mewn dulliau o greu, dathlu, dehongli a chyflwyno ein diwylliant a'n treftadaeth amrywiol. Rhai o fanteision rhannu'r broses o wneud penderfyniadau yw cael mwy o ymwelwyr, ymgysylltu hirdymor a refeniw uwch, a chyfrannu at y teimlad o berthyn i gymuned a chyrhaeddiad addysgol.

Mae cynlluniau gweithredu Cymru Wrth-hiliol a LDHTC+ Llywodraeth Cymru wedi tynnu sylw at bwysigrwydd addasu'r lens rydyn ni'n ei defnyddio i weld a dehongli ein gorffennol, a mynd i'r afael â'r anghydbwysedd hanesyddol sydd wedi bod yn y ffordd rydym wedi mynegi a dathlu diwylliant.

Mae angen i ni hefyd ystyried sut mae ein hagweddau at goffáu yn llywio ein dealltwriaeth o'r gorffennol. Mae'r ddogfen Coffáu Cyhoeddus yng Nghymru: Canllawiau i Gyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru yn helpu cyrff cyhoeddus i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch coffáu nawr ac yn y dyfodol, ac i geisio sicrhau cyfleoedd i greu perthynas fwy cytbwys â'n hanes.

### Ein dyheadau:

**D2: Mae democratiaeth ddiwylliannol a hawliau diwylliannol yn ganolog i ddiwylliant yng Nghymru.**

**D3: Mae diwylliant yn mabwysiadu dull cynhwysol a chytbwys o ddehongli, coffáu a chyflwyno ein gorffennol.**

1 144,000 yn fwy o Ymweliadau Theatr oherwydd cynllun hygyrchedd Hynt yng Nghymru. | Cyngor Celfyddydau Cymru https://arts.wales/cy/newyddion-swyddi-chyfleoedd/144000-yn-fwy-o-ymweliadau-theatr-oherwydd-cynllun-hygyrchedd-hynt-yng

2 Democratiaeth ddiwylliannol (https://64millionartists.com/what-we-do/cultural-democracy/)

## 1.3 Cysylltu drwy ymdeimlad o le

Rydym yn cydnabod bod gan gymunedau eu hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain, sy'n aml yn gysylltiedig â thirweddau, enwau lleoedd, hanes lleol, adeiladau, gwrthrychau, treftadaeth ddogfennol, mudo, traddodiadau a straeon. Mae ein diwylliant a'n treftadaeth yn amlwg yn ein tirweddau a'n trefluniau, ac mewn llu o adeiladau hanesyddol a henebion hynafol o'n cwmpas. Mae henebion ein gorffennol diwydiannol mwy diweddar yn dangos sut mae Cymru wedi helpu i lunio'r byd modern, ac mae ein parciau cenedlaethol, ein tirweddau dynodedig, ein pentrefi, ein trefi a'n dinasoedd yn llefydd llawn ysbrydoliaeth lle mae ein diwylliant a'n treftadaeth yn cael eu dehongli, eu hyrwyddo, eu dathlu a'u mwynhau.



'Cynefin' yw diffiniad y Cwricwlwm i Gymru o'r ymdeimlad hwn o le, lle mae'r hanesyddol, diwylliannol a chymdeithasol wedi llunio ac yn parhau i lywio'r gymuned sy'n byw ynddo. Mae rhannu diwylliant yn chwarae rhan allweddol o ran cysylltu pobl, meithrin balchder lleol, ysbrydoli cymunedau a datblygu ymdeimlad o berthyn. Mae mudiadau cymunedol, o lyfrgelloedd i sefydliadau celfyddydol cymunedol, o wasanaethau archif i amgueddfeydd lleol a grwpiau treftadaeth yn annog ac yn galluogi pobl i fyw bywydau boddhaus a chreadigol mewn ffordd sy'n cryfhau'r cysylltiad â'u diwylliant a'u treftadaeth leol.

Rhaid i ni barhau i greu cyfleoedd ystyrlon i bobl a chymunedau gysylltu drwy ddiwylliant. Mae adfywio sy'n cael ei arwain gan ddiwylliant a threftadaeth yn bwerus ac yn drawsnewidiol. Mae cael pobl i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o ganfod a chefnogi cadwraeth eu hasedau diwylliannol lleol, yn meithrin ymdeimlad o berthyn a balchder yn eu cymuned, yn creu ymdeimlad o stiwardiaeth, ac yn cefnogi llesiant cymunedol.

### Ein dyhead:

**D4: Mae diwylliant yn rhan annatod o greu lleoedd ac o lesiant cymunedol.**

## 1.4 Cysylltu plant a phobl ifanc â diwylliant

Rydym wedi ymrwymo i'r hawliau a roddir i blant fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau diwylliannol ac artistig, a dylid annog darparu cyfleoedd priodol a chyfartal ar gyfer gweithgareddau diwylliannol, creadigol a hamdden.[3]

Plant a phobl ifanc fydd yn gofalu am ddiwylliant yng Nghymru yn y dyfodol. Rydym am sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a mwynhau profiadau diwylliannol rheolaidd o oedran cynnar.

Mae pobl ifanc wedi dweud wrthym fod diwylliant yn arf gwerthfawr wrth ddod â'r cwricwlwm ysgol yn fyw, ac i blant a phobl ifanc o gefndiroedd economaidd difreintiedig, mae'n hanfodol eu bod yn dod i gysylltiad â phrofiadau diwylliannol ac addysg ddiwylliannol yn yr ysgol

3 www.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2016/08/unicef-convention-rights-child-uncrc.pdf



Mae gan ein sefydliadau diwylliannol wasanaethau addysgol, gofodau, adnoddau a chasgliadau ysbrydoledig, o ansawdd uchel sy'n cael eu defnyddio i gefnogi a gwella addysg a dysgu plant o oedran ifanc. Rydym eisoes yn gweithio gydag arweinwyr polisi addysg i sicrhau bod y cwricwlwm yn rhoi pwyslais cryf ar ddiwylliant a threftadaeth drwy faes dysgu a phrofiad y celfyddydau mynegiannol a thema Cynefin,[4] ac i helpu mwy o ysgolion i brofi diwylliant drostynt eu hunain drwy ymweliadau, digwyddiadau a gweithgareddau diwylliannol. Yn ein Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar yng Nghymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar, rydym yn annog ymarferwyr i wneud yn siŵr bod cyfleoedd i fabanod a phlant ifanc brofi ac archwilio diwylliant a threftadaeth. Mae ein sectorau wedi dweud wrthym eu bod yn cydnabod gwerth chwarae. Mae llawer o leoliadau diwylliannol yn cyfrannu at y ffordd y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu cynlluniau Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol, fel gweithgareddau chwarae a chreadigol am ddim mewn llyfrgelloedd ledled Cymru. Gall chwarae gynnig cyfleoedd cynnar yng Nghymru i archwilio diwylliant ac i ymgysylltu ag o.

Yn 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru'r Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol newydd fel rhan o'n hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc ledled Cymru i chwarae offerynnau cerdd. Mae Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau, ein menter ar y cyd â Chyngor Celfyddydau Cymru, yn parhau i roi cefnogaeth i wneud y celfyddydau'n rhan annatod o'r cwricwlwm, ac mae'r cam presennol yn cynnwys y llinyn 'Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar', sy'n canolbwyntio ar gefnogi dysgu a datblygu plant ifanc 3-5 oed.

Mae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar awdurdodau Cymru i gyhoeddi amcanion tlodi plant fel rhan o strategaeth i gyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Mae llawer o'n sefydliadau diwylliannol a threftadaeth eisoes yn cynnig rhaglenni a digwyddiadau am ddim sy'n bwysig ar gyfer mynd i'r afael ag allgau o weithgarwch diwylliannol oherwydd tlodi. Mae'n rhaid mynd ati i wella'r rhain.

Dylai pobl ifanc deimlo eu bod wedi'u grymuso i archwilio eu treftadaeth a siapio diwylliant. Mae hyn yn golygu dylanwadu ar y ffordd y caiff diwylliant ei ffurfio yng Nghymru, gan gymryd rhan yn rhydd mewn cyfleoedd diwylliannol sydd ar gael, yn ogystal â gallu llunio eu hunaniaeth ddiwylliannol eu hunain. Gwelwyd arferion rhagorol lle mae sefydliadau diwylliannol wedi datblygu cyfleoedd i leisiau pobl ifanc gael eu clywed a'u cynrychioli, gyda gwerthfawrogiad o'u dylanwad a'u hegni.

### Ein dyhead:

**D5: Mae diwylliant yn adlewyrchu anghenion a dyheadau plant a phobl ifanc, ac yn ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o gyfranogwyr ac arweinwyr diwylliannol.**

## 1.5 Cysylltu'r cenedlaethau

Yng Nghymru, rydym wedi dangos ein hymrwymiad clir i gefnogi'r cenedlaethau drwy sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, a Chomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.


Mae tueddiadau poblogaeth y dyfodol yn rhagweld y bydd poblogaeth Cymru'n heneiddio'n gynyddol.[5] Yn Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, mae Llywodraeth Cymru yn mynegi dyhead clir i sicrhau bod Cymru'n wlad oed-gyfeillgar.

Rydym yn credu bod y sector diwylliant yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi llesiant pobl hŷn, ac o ran cysylltu'r cenedlaethau. Gall lleoliadau diwylliannol gefnogi cyfranogiad a chadw pobl hŷn mewn cysylltiad â'u cymunedau, gan fynd i'r afael ag unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol drwy gynnig mannau cyfarfod anffurfiol ar gyfer cyswllt cymdeithasol. Rydym yn cydnabod bod pobl hŷn yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r sector diwylliant. Mae llawer o bobl hŷn yn gwirfoddoli neu'n cymryd rhan ymarferol mewn prosiectau neu raglenni, gan rannu eu hamser, eu straeon personol, eu harbenigedd, eu gwybodaeth a'u sgiliau.

Rydym am i'r sector diwylliant yng Nghymru barhau i werthfawrogi gwybodaeth a phrofiad pob cenhedlaeth wrth gynllunio rhaglenni a gwasanaethau, a hyrwyddo manteision dulliau pontio'r cenedlaethau, sy'n creu cysylltiadau rhwng cenedlaethau er budd pawb.

### Ein dyhead:

**D6: Mae diwylliant yn cryfhau'r cysylltiad rhwng y cenedlaethau.**



4 hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm
5 adroddiad-tueddiadaur-dyfodol-cymru-2021-crynodeb-naratif.pdf (llyw.cymru)



# **BLAENORIAETH 2:** Cenedl Diwylliant

Mae diwylliant yn ganolog i'n hunaniaeth fel cenedl. Mae diwylliant yn cefnogi perthnasoedd dwfn a pharhaus ag eraill ar draws y byd. Mae diwylliant yn cael ei ddathlu.

## 2.1 Cenedl ddwyieithog ac amlieithog

Mae'r Gymraeg yn perthyn i Gymru gyfan – mae'n rhan o hanes, treftadaeth a thraddodiadau ein cenedl, ac mae'n allweddol i'w dyfodol. Rhaid cydnabod gwerth y Gymraeg, ei hyrwyddo a'i dathlu ar draws pob maes gweithgarwch yn ein sectorau, a gwreiddio hynny.

Mae'r cynnig diwylliannol drwy gyfrwng y Gymraeg wedi hen ennill ei blwyf ac mae ar gynnydd. Mae'n cynnwys y celfyddydau, llenyddiaeth, cerddoriaeth a'r diwydiannau perfformio gyda llawer o bartneriaid pwysig sy'n sicrhau rhaglen fywiog a lleol o ddigwyddiadau a gweithgareddau cyfrwng Cymraeg, gan hyrwyddo cyfranogiad. Mae llawer wedi dweud wrthym fod dysgwyr Cymraeg yn dysgu'n gyflymach neu'n well pan gyflwynir diwylliant yn y Gymraeg iddynt neu pan fyddant yn cael eu haddysgu am dreftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae ein cymunedau Cymraeg a gwledig yn wynebu heriau a newidiadau strwythurol. Mae pobl ifanc yn allfudo'n barhaus o'r cymunedau hyn, sydd â hanes bywiog o hyrwyddo ein diwylliant, ein treftadaeth a'r Gymraeg, ac mae pobl yn mewnfudo i'r cymunedau hyn o'r tu hwnt i'r ffin. O ganlyniad uniongyrchol i hyn, mae'n mynd yn fwyfwy anodd i sicrhau cynaliadwyedd ein gweithgareddau diwylliannol a'n gweithgareddau Cymraeg mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd Cymraeg eu hiaith.

Mae gan strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru ddyhead clir o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg a dyblu'r defnydd dyddiol o'r iaith erbyn 2050,[6] a dylid nodi'r Gymraeg fel sgil gwerthfawr yn y sector diwylliant.

Mae Cynlluniau Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru yn cydnabod ac yn blaenoriaethu'r Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant fel thema sylfaenol ar draws meysydd fel entrepreneuriaeth, sgiliau ac arloesedd. Rhaid i'r agwedd tuag at ddatblygu economaidd ychwanegu at y cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a dylai hyrwyddo ein diwylliant a'n treftadaeth gyfoethog gyfrannu at gefnogi cymunedau sy'n gadarnleoedd i'r Gymraeg, gan gynyddu'r cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd.

Mae ein dyhead hefyd yn cydnabod pwysigrwydd diwylliannol pob iaith a ddefnyddir gan gymunedau ledled Cymru. Mae ieithoedd yn ehangu gorwelion, yn cryfhau dysgu a dealltwriaeth ac yn agor drysau i brofiadau newydd. Hoffem weld y sector diwylliant yn cofleidio'r her o wreiddio ieithoedd ychwanegol yn ei raglenni. Bydd datblygu adnoddau a phrofiadau yn Iaith Arwyddion Prydain a Braille ac ymateb i anghenion ieithyddol cymunedau lleol yn sicrhau bod ein sectorau mor gynhwysol a hygyrch â phosibl.

6 Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (llyw.cymru)

### Ein dyhead:

**D7: Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn adlewyrchu Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlieithog.**

## 2.2 Diwylliant a llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys ffocws ar wella llesiant diwylliannol yng Nghymru. Gall diwylliant a threftadaeth chwarae rhan allweddol yn y ffordd y mae llunwyr polisïau'n ymateb i ofynion y Ddeddf, ac mae tystiolaeth gynyddol ynghylch sut y gall diwylliant gyfrannu at gyflawni nodau polisi ehangach, ac ychwanegu gwerth atynt, gan gynnwys iechyd a llesiant, addysg, mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a'r economi.

Mae effaith gadarnhaol diwylliant i'w weld ym mhobman. Rydym yn deall manteision cyfranogiad diwylliannol a gweithgarwch creadigol wrth gefnogi iechyd a lles ers tro byd. Gall ymgysylltu â diwylliant drwy raglenni gwirfoddoli, addysg a hyfforddiant, a mynediad at leoedd a gweithgareddau diwylliannol gael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles a helpu i fynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol ac unigrwydd. Mae mentrau fel presgripsiynu cymdeithasol yn cynnig cyfleoedd i lawer o bobl sydd wedi'u datgysylltu oddi wrth ddiwylliant i ehangu eu gorwelion a'u budd.



Ni ddylai'r sector diwylliant weithio mewn seilos. Mae rhanddeiliaid wedi mynegi awydd clir am fwy o gydweithio, ac agwedd ragweithiol tuag at gryfhau'r cysylltiadau presennol a sefydlu partneriaethau newydd. Er enghraifft, mae cyfleoedd clir i Cadw ac Amgueddfa Cymru rannu arbenigedd a datblygu dulliau cydgysylltiedig o reoli henebion hanesyddol a chasgliadau diwylliannol o ran y ffordd y cânt eu cyflwyno, eu gofalu amdanynt a'u hyrwyddo. Byddai hyn yn cyd-fynd ag argymhellion allweddol adolygiad llywodraethu Cadw yn 2023. Mae'r adolygiad hefyd yn annog cyfleoedd tebyg i integreiddio swyddogaethau rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

Mae cydweithio da eisoes yn digwydd rhwng llawer o feysydd yn y sector diwylliant a sectorau eraill, gan gynnwys iechyd a gofal cymdeithasol, Cyfoeth Naturiol Cymru, parciau cenedlaethol, chwaraeon, twristiaeth a busnesau yn y sector preifat. Mae'r ymdrechion hyn yn arwain at bartneriaethau deinamig a chreadigol, rhannu gwybodaeth a dulliau cyllido ar y cyd. Drwy weithio mewn partneriaeth, rydym am edrych ar fwy o waith traws-sector yn ymwneud yn benodol â meysydd fel iechyd, addysg, datblygu economaidd, twristiaeth, yr amgylchedd naturiol, mynd i'r afael â thlodi a chyfiawnder cymdeithasol.

### Ein dyheadau:

**D8: Mae llesiant diwylliannol wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y broses o lunio polisïau ledled Cymru.**

**D9: Mae ymgysylltu diwylliannol yn cefnogi llesiant unigolion a chymunedau.**

**D10: Bydd cyrff diwylliant a threftadaeth yn cydweithio mwy i fanteisio i'r eithaf ar botensial llawn eu timau arbenigol a'u casgliadau, a byddant yn gweithio gyda sectorau eraill i ystyried pŵer diwylliant, a manteisio arno.**



## 2.3 Twristiaeth ddiwylliannol

Mae twristiaeth yn gwneud cyfraniad mawr at economi Cymru. Mae'n sector sy'n tyfu'n gyflym ac yn creu swyddi a chyfleoedd busnes ledled y wlad, gan gynnwys mewn ardaloedd anghysbell a gwledig. Mae Cymru'n cael ei chydnabod yn eang fel lle sy'n llawn anturiaethau, o dreftadaeth y byd a threftadaeth Gymreig, tirweddau naturiol rhagorol, llety sydd hefyd yn cynnig tipyn o brofiad, bwyd a diod sy'n dod â dŵr i'r dannedd, a chalendr cyfoethog o ddigwyddiadau diwylliannol lleol a byd-eang.

Rydym am i ddiwylliant a threftadaeth Cymru barhau i chwarae rhan bwysig mewn twristiaeth yng Nghymru ac am ei wreiddio yn y ffordd rydym yn hyrwyddo Cymru i'r byd. Mae potensial i rai agweddau ar ddiwylliant a threftadaeth Cymru, fel Safleoedd Treftadaeth y Byd, ddenu cynulleidfaoedd rhyngwladol ac maent eisoes yn cael eu cydnabod fel rhai o arwyddocâd cyffredinol. Mae twristiaeth hynafiaid yn atyniad sylweddol i'r rheini sy'n teithio i Gymru i ymgymryd ag ymchwil i hanes teuluol ac achau, yn ogystal ag ymweld â mannau lle'r oedd eu cyndeidiau'n byw ac yn gweithio.

Mae Croeso i Gymru, y strategaeth twristiaeth ar gyfer 2020-25 yn nodi'r tair her allweddol – Tymoroldeb, Gwariant a Gwasgariad. Rydym eisiau tyfu twristiaeth er lles Cymru a gall y sector diwylliant gefnogi hyn drwy sbarduno ymweliadau yn y tymor tawel ac ymweliadau i rannau llai poblogaidd o'n gwlad wych, gan annog ymwelwyr i aros yn hirach a gwario mwy. Mae llawer o gyfleoedd i sicrhau bod yr economi ymwelwyr gyfan – o lety, lletygarwch, atyniadau, digwyddiadau a'r economi nos – yn chwarae rhan yn y gwaith o hyrwyddo diwylliant yn ein gwlad a'i hyrwyddo i'r byd.

Mae Strategaeth Digwyddiadau Cenedlaethol Cymru'n sicrhau bod diwylliant Cymru a'r Gymraeg i'w gweld mewn digwyddiadau yng Nghymru, gan helpu i adrodd straeon Cymru i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Mae'n ceisio creu mwy o ymdeimlad o 'Gymreictod' mewn digwyddiadau, p'un a ydynt yn rhai cynhenid neu ryngwladol eu naws. Mae cysylltu diwylliant â thwristiaeth a digwyddiadau yn ganolog i greu lleoedd integredig. Byddwn yn sicrhau bod y dull hwn yn parhau i ennill momentwm. Mae dulliau cynaliadwy o ddatblygu a digwyddiadau twristiaeth yn parhau i fod yn egwyddor arweiniol allweddol. Mae Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo twf economaidd sy'n cyd-fynd â chynaliadwyedd amgylcheddol, cyfoethogi cymdeithasol a diwylliannol a manteision iechyd i bobl sy'n byw ac yn gweithio yma ac i bobl sy'n dod i ymweld.



### Ein dyhead:

**D11: Mae diwylliant yn cefnogi twristiaeth; mae twristiaeth yn cefnogi diwylliant. Mae gan ddiwylliant broffil uchel yn y ffordd y caiff ein cenedl ei marchnata i ymwelwyr.**

## 2.4 Cysylltiadau diwylliannol a diplomyddiaeth ddiwylliannol – Cymru a'r byd

Mae cyflwyno Cymru i'r byd yn arbennig o bwysig wrth i'r DU annog cysylltiadau rhyngwladol newydd. Mae'r Strategaeth Ryngwladol, a gyhoeddwyd yn 2020, yn nodi gweledigaeth Llywodraeth Cymru i godi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol.

Dylai hyrwyddo diwylliant a threftadaeth Cymru, a datblygu cysylltiadau diwylliannol drwy gyfnewid arferion a phrofiad diwylliannol, creadigol ac artistig fod yn rhan annatod o'r ffordd y mae Cymru'n datblygu cysylltiadau ffurfiol ac anffurfiol gyda rhanbarthau a gwledydd eraill. Mae hyn yn cynnwys sicrhau mai gwerthoedd sy'n arwain cysylltiadau diwylliannol Cymru a'u bod yn cyflawni nod cyfrifoldeb byd-eang Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd buddsoddi mewn talent artistig a chreadigol ac rydym am annog dyhead sy'n galluogi ein hymarferwyr, ein hartistiaid a'n crewyr arbenigol i gael cydnabyddiaeth ryngwladol, a dod yn llysgenhadon diwylliannol sy'n dod â budd i Gymru ymhell y tu hwnt i'r unigolyn, y grŵp neu'r cynhyrchiad. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno'r Gymraeg i lwyfan byd-eang, a gefnogir drwy Femoranda Cyd-ddealltwriaeth niferus Llywodraeth Cymru gyda rhanbarthau a gwledydd eraill ledled y byd yn ogystal â thrwy ei blynyddoedd thematig "Cymru yn..." sy'n canolbwyntio ar wlad wahanol bob blwyddyn.

Mae rhwydwaith Llywodraeth Cymru o swyddfeydd rhyngwladol, ein digwyddiadau diwylliannol rhyngwladol, diplomyddiaeth chwaraeon, a phartneriaeth cysylltiadau diwylliannol proffil uchel sy'n gweithio gyda rhanddeiliaid strategol a chyd-fuddsoddwyr eisoes yn cryfhau presenoldeb Cymru ar y llwyfan rhyngwladol. Mae gan frand a phroffil ein sefydliadau diwylliant a threftadaeth cenedlaethol hefyd rôl i'w chwarae o ran hyrwyddo Cymru a datblygu proffil Cymru dramor.

Rhaid i ni barhau i adeiladu ar y momentwm a gyflawnwyd drwy fabwysiadu dull cydweithredol Tîm Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, gan chwilio am gyfleoedd newydd i feithrin y diddordeb cynyddol mewn diwylliant Cymreig a Cheltaidd a sicrhau bod maes diplomyddiaeth ddiwylliannol Cymru'n adlewyrchu ehangder ac amrywiaeth y sector diwylliant. Drwy gydweithio â phartneriaid strategol ar ddull gweithredu y cytunwyd arno ar gyfer cysylltiadau diwylliannol, gall Cymru ddatblygu ei dyheadau o ran diplomyddiaeth ddiwylliannol a pharhau i ehangu ei chyrhaeddiad.

### Ein dyhead:

**D12: Mae diwylliant wedi'i integreiddio yn y ffordd y mae Cymru'n sefydlu ac yn datblygu cysylltiadau rhyngwladol.**

## 2.5 Dathlu diwylliant

Mae diwylliant yn ganolog i'n harwahanrwydd fel cenedl ac i'n hymdeimlad o fod yn Gymry. Gallwn gofleidio ein hanes, ein treftadaeth, ein hieithoedd a'n traddodiadau ar yr un pryd â chroesawu rhai newydd, gan greu ymdeimlad o genedligrwydd sy'n datblygu'n gyson drwy ddiwylliant.

Mae Cymru'n ffodus o gael darpariaeth ddiwylliannol a chreadigol sylweddol ac eang y dylem ei ddathlu, ei fwynhau a'i rannu ag eraill.

Mae Dydd Gŵyl Dewi'n parhau i fod yn un o nodweddion allweddol ein calendr diwylliannol. Dylai dathlu ein nawddsant gynnig cyfleoedd amrywiol, cynhwysol a llawn hwyl ledled Cymru ac i'n cymunedau ar wasgar, gan alluogi pawb i fod yn Gymry unigryw – gyda'i gilydd, ac fel unigolion.

Mae dathliadau rhyngwladol sefydledig fel Diwrnod y Llyfr, Diwrnod Treftadaeth y Byd a Diwrnodau Treftadaeth Ewropeaidd, a dathliadau mwy diweddar fel Diwrnod Gwerin Ewrop yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i arddangos gwahanol agweddau ar ddiwylliant Cymru. Mae dathliadau a digwyddiadau lleol a chenedlaethol yn rhoi'r cyfle i bobl gefnogi diwylliant, gydag enghreifftiau fel Dydd Miwsig Cymru yn cynnig diwrnod bywiog o ddathlu ar yr un pryd â hyrwyddo cerddoriaeth yn y Gymraeg a dangos sut mae'r sîn gerddoriaeth fyw yn cyfrannu at yr economi gyda'r nos. Mae'n werth dathlu diwylliant, a rhaid i ni barhau i greu a chwilio am gyfleoedd drwy gydol y flwyddyn i ddathlu diwylliant yng Nghymru yn ei holl ffurfiau gwahanol.

### Ein dyhead:

**D13: Codi proffil diwylliant yng Nghymru drwy ddathlu a hyrwyddo diwylliant ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol.**

# **BLAENORIAETH 3:** Mae Diwylliant yn Gydnerth ac yn Gynaliadwy

Mae asedau diriaethol ac anniriaethol Cymru yn cael eu nodi, eu gofalu amdanynt a'u rheoli i'r safonau uchaf.

Mae yna weithlu cryf a chadarn ym maes diwylliant, gydag arbenigedd yn gonglfaen iddo.

Mae diwylliant yn dangos cydgyfrifoldeb ac ymateb cadarn i bryderon byd-eang.



## 3.1 Gofalu am ein lleoedd a'n casgliadau diwylliannol

Mae gofalu am ein lleoedd a'n casgliadau hanesyddol angen dealltwriaeth o'u rhinweddau arbennig ac yn dibynnu ar sgiliau arbenigol, deddfwriaeth a rheoliadau, arweiniad a chyllid

Roedd gwneud Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023 yn gyfraith yn foment arwyddocaol o ran diogelu lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Mae'r Ddeddf yn gosod mewn cyfraith yr angen i fynd ati'n effeithiol i warchod a rheoli ein hamgylchedd hanesyddol unigryw.

Mae angen rhoi cefnogaeth ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol i wasanaethau rheoleiddio a chynghori i sicrhau y gall perchennog pob ased hanesyddol gael gafael ar yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt, a bod gan awdurdodau statudol yr arbenigedd a'r adnoddau i gyflawni rhwymedigaethau'r Ddeddf. Perchnogion asedau hanesyddol yw ceidwaid ein gorffennol ac mae ganddynt rôl hanfodol o ran helpu i warchod ein treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Ochr yn ochr â chanllawiau a chymorth technegol, mae angen buddsoddiad parhaus i sicrhau ein bod yn cadw ac yn cynnal ein hadeiladau a'n henebion hanesyddol unigryw, yn enwedig y rheini mewn perchnogaeth gyhoeddus a chymunedol, sy'n cyfrannu cymaint at ein hunaniaeth ddiwylliannol a'n heconomi twristiaeth.

Mae heriau'n bodoli o ran storio casgliadau. Yn 2023, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad a oedd yn ceisio nodi gwelliannau o safbwynt rheoli casgliadau, lleihau costau i sefydliadau diwylliannol, cefnogi datgarboneiddio'r gwaith o storio casgliadau, a gwella mynediad ymchwilwyr a'r cyhoedd at gasgliadau. Mae angen buddsoddiad cyfalaf parhaus a strategol i gefnogi'r gwaith o storio ein casgliadau'n ddiogel, ac i greu lleoedd croesawgar a llawn ysbrydoliaeth lle gall y cyhoedd ryngweithio â chasgliadau.

Mae angen sgyrsiau gydag arbenigwyr casgliadau Cymru ynghylch datblygu polisi casgliadau cenedlaethol, archwilio'r syniad o gael casgliad cenedlaethol gwasgaredig a sut rydym yn cefnogi prosesau casglu cyfoes a gweithredol. Dylai ein dull o gasglu adlewyrchu arferion gorau yn y sectorau a sicrhau y cynrychiolir pob agwedd ar ddiwylliant yng Nghymru, a dylid manteisio ar ein casgliadau a'n hasedau hanesyddol i ysbrydoli creadigrwydd, cefnogi dysgu, creu lleoedd a sicrhau llesiant diwylliannol.

Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol. Mae traddodiadau llafar a gwerin, sgiliau, arferion cymdeithasol, defodau a dathliadau yn cael eu trosglwyddo o un genhedlaeth i'r nesaf, ac rydym o blaid i'r DU lofnodi Confensiwn UNESCO ar Ddiogelu Treftadaeth Ddiwylliannol Anniriaethol.

### Ein dyheadau:

**D14 Mae ein casgliadau a'n hasedau hanesyddol yn derbyn gofal, ac maent yn cael eu defnyddio i gefnogi dysgu, creadigrwydd, creu lleoedd a sicrhau llesiant diwylliannol.**

**D15 Mae gan sefydliadau sy'n gyfrifol am ddiogelu a gofalu am ein casgliadau diwylliannol a'n hasedau hanesyddol ddulliau strategol i gydnabod eu harwyddocâd a'u casglu.**


**D16: Mae ein treftadaeth ddiwylliannol anniriaethol yn rhan annatod o stori'n gwlad – mae'n cael ei chofnodi, ei chefnogi i ffynnu, a'i rhannu ag eraill er budd cenedlaethau'r dyfodol.**

## 3.2 Pŵer technoleg ddigidol

Mae cynydd cyflym yn y cynnwys sy'n cael ei gadw mewn fformat digidol. Mae hyn yn cynnwys eitemau 'digidol gwreiddiol' ac eitemau ffisegol a ddigideiddiwyd at ddibenion cadwraeth a mynediad. Caiff gwasanaethau digidol eu datblygu hefyd ar draws y sector ac mae defnyddwyr bellach yn disgwyl gallu defnyddio gwasanaethau digidol i gael gafael ar gynnwys a gwasanaethau ar-lein, archebu tocynnau ar gyfer digwyddiadau, ymuno â gweithgareddau ar-lein, gwylio digwyddiadau sy'n cael eu ffrydio'n fyw, archebu ac adnewyddu llyfrau ac adnoddau llyfrgell, lawrlwytho e-lyfrau a deunyddiau e-glywedol, ymweld ag amgueddfa rithwir, cyfrannu at ddiwylliant fel gwirfoddolwyr 'rhithwir', a mwynhau dehongli digidol yn ein safleoedd treftadaeth.

Bydd datblygiad technoleg ddigidol, gan gynnwys galluoedd deallusrwydd artiffisial newydd, yn parhau i drawsnewid y sector diwylliant a threftadaeth, gan ehangu mynediad at ein hasedau diwylliannol a galluogi llawer mwy o bobl i ymgysylltu â chasgliadau a gweithgareddau diwylliannol.

Hyd yma, sefydliadau unigol sy'n gweithio ar eu pen eu hunain sy'n aml yn gyfrifol am ddatblygiadau digidol. Mae datblygu blaenoriaethau diwylliannol yn cynnig cyfle i adolygu cyflwr ein datblygiad digidol a llunio dull mwy strategol, cydweithredol a chydlynol o ymdrin â'r cyfleoedd a'r heriau sy'n gysylltiedig â gweithredu yn y byd digidol.



## Creu, rheoli a chynnal cynnwys digidol

Mae cynnwys digidol yn agored i niwed ac yn fregus. Gall darfodiad technoleg ei wneud yn anhygyrch, mae perygl iddo gael ei golli neu ei lygru, a gall sefydliadau diwylliannol ddioddef ymosodiad seiber niweidiol. Rhaid i ni fod yr un mor ofalus wrth ddiogelu a gofalu am ein diwylliant a'n treftadaeth ddigidol ag yr ydym ni gyda'n treftadaeth ffisegol drwy sicrhau ein bod yn creu cynnwys digidol o ansawdd uchel sy'n gallu cael ei gadw a'i storio'n ddiogel dros y tymor hir. Bydd buddsoddi mewn seilwaith digidol cynaliadwy a chadarn ochr yn ochr â'n seilwaith ffisegol, a chryfhau sylfeini ein gwasanaethau digidol, yn unol â dyheadau'r Strategaeth Ddigidol i Gymru, yn sicrhau y gall ein sectorau ddatblygu cynigion digidol sy'n arwain y byd ac sy'n ddiogel.

Mae'r gallu i ddatblygu a chynnig gwasanaethau digidol eisoes yn amrywio o un sefydliad i'r llall ledled Cymru ac mae perygl o greu gagendor digidol sydd hyd yn oed yn fwy llym. Caiff ein cynnwys mwyaf diogel ei guradu gan sefydliadau sydd â strategaethau, prosesau a gweithdrefnau sefydledig ac sy'n glynu wrth safonau ac arferion gorau. Drwy ddatblygu storfeydd digidol dibynadwy sy'n cael eu rhannu, gallwn ddiogelu treftadaeth ddigidol Cymru a sicrhau ei bod yn agored ac yn hygyrch. Byddwn yn annog sefydliadau sydd â sgiliau digidol mwy datblygedig i weithio gyda sefydliadau llai i'w galluogi i ofalu am gasgliadau digidol gwreiddiol a digideiddio eu casgliadau presennol.

## Sgiliau digidol

Mae angen sgiliau digidol priodol arnom ar bob lefel, o wirfoddolwyr rheng flaen sy'n defnyddio meddalwedd tocynnau, arbenigwyr ym maes dyniaethau digidol, archifwyr a churaduron sydd â gwybodaeth arbenigol am safonau ac arferion gorau ynghylch cadwraeth ddigidol, i arweinwyr sy'n gallu datblygu strategaethau ar gyfer datblygiadau digidol yn seiliedig ar ddealltwriaeth o dueddiadau cynulleidfaoedd dros y deng mlynedd nesaf.

## Technolegau newydd

Mae angen cymorth ar ein sectorau i arloesi a chynyddu eu capasiti digidol. Gall llwyfannau a gofodau digidol gynnig ffyrdd pwerus o gysylltu â diwylliant ac o ymgysylltu â rhaglenni diwylliannol. Rydym am gryfhau'r defnydd o dechnolegau newydd i wella'r ffordd y mae pobl yn cysylltu â diwylliant yng Nghymru ac yn mynd ati i'w greu. Mae'r sector diwylliant wedi mabwysiadu technolegau digidol i greu a rheoli casgliadau o'r radd flaenaf, darparu mwy o fynediad i'r cyhoedd at gasgliadau, a chynyddu ymgysylltiad â chymunedau yng Nghymru a ledled y byd. Fodd bynnag, mae cost garbon ynghlwm â defnyddio technoleg newydd, a rhaid i ni fod yn ymwybodol o gostau ynni a'r ôl troed carbon yn sgil cynnal cynnwys digidol.



Byddwn yn annog sefydliadau i sicrhau bod eu buddsoddiad mewn technoleg yn cynnwys defnydd cynaliadwy o ynni ac allyriadau carbon bach iawn, yn ogystal â dewisiadau gwybodus ynghylch casglu, prosesu, storio a dosbarthu data. Yn olaf, byddwn yn gweithio gyda sectorau i ddeall effaith Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn eu meysydd nhw, i feithrin cefnogaeth i sefydliadau, ac i ddeall sut y gallai sectorau ddefnyddio deallusrwydd artiffisial i arloesi ac unrhyw risgiau posibl sy'n deillio o ddefnyddio'r dechnoleg hon.

## Cysylltedd digidol

Drwy gynnal cynnwys diwylliannol ar-lein, gallwn gysylltu cymunedau ledled Cymru â'i gilydd, a thynnu sylw'r byd at y rhannau gorau o'n diwylliant. Gall casgliadau, arddangosfeydd a pherfformiadau digidol, yn ogystal â chynnwys digidol gwreiddiol, gynnig cyfle i bobl ledled Cymru ymgysylltu â diwylliant a fyddai fel arall yn anhygyrch. Gallwn atgynhyrchu safleoedd hanesyddol sy'n anhygyrch yn ffisegol mewn fformatau digidol a chyfieithu testun arddangosfeydd i unrhyw iaith.

Cymerwyd camau breision mewn perthynas â chysylltedd digidol, ond rydym yn dal i wynebu gagendor digidol amlwg a chroestoriadol. Mae llawer o bobl sy'n methu â chael profiadau diwylliannol digidol neu mae'n well ganddynt ymgysylltu â diwylliant yn y cnawd. Ar ben hynny, mae gagendor yn bodoli ymhlith ein sefydliadau diwylliannol rhwng cyrff mwy o faint sydd â'r adnoddau, yr offer, y capasiti a'r sylfaen sgiliau i ddigideiddio, a sefydliadau llai, yn enwedig rhai lleol, nad oes ganddynt yr asedau hyn. Rhaid i ni sicrhau y gall pobl yng Nghymru gael gafael ar asedau diwylliannol all-lein, ond rhaid i ni hefyd sicrhau bod ein sefydliadau'n derbyn cymorth lle bo angen wrth iddynt barhau i greu cynnwys digidol.

### Ein dyhead:

**D17: Mae arferion digidol da yn cefnogi ac yn gwella ein diwylliant.**

# 3.3 Buddsoddi mewn ymchwil

Yn 2023, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r sylfaen dystiolaeth bresennol ar gyfer y sector diwylliant yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at yr angen am ddull mwy cynhwysfawr a chydlynol o gasglu data a thystiolaeth ar draws ein sectorau i gefnogi datblygiad y sector ac i lywio penderfyniadau effeithiol.

Mae enghreifftiau ar gael o arferion da wrth gasglu tystiolaeth fel yr Arolwg Sbotolau ar Amgueddfeydd sy'n rhoi golwg fanwl ar y sector amgueddfeydd yng Nghymru ac yn creu sylfaen dystiolaeth hanfodol i ddatblygu polisi arni. Mae angen y lefel hon o ddata ar gyfer pob rhan o'r sector diwylliant yng Nghymru, a dylid ei gasglu'n gyson, er mwyn gallu gwerthuso ein canlyniadau a'n heffaith yn gadarn. Bydd lledaenu canfyddiadau ymchwil allweddol mewn modd effeithiol a diddorol yn galluogi'r sector i gynllunio'n fwy effeithlon ar gyfer y dyfodol.

Mae gan Gymru gymuned ymchwil gref, gan gynnwys ein sector addysg uwch, sydd â pherthynas lwyddiannus ers tro gyda chyrff ymchwil a chyllidwyr cenedlaethol y DU. Dylai parhau i ddatblygu cysylltiadau â phartneriaid ymchwil i gryfhau'r ffocws ar ddiwylliant a threftadaeth yng Nghymru, a datblygu agenda ymchwil genedlaethol, fod yn amcan ar y cyd rhwng y sector diwylliant ac addysg uwch. Dylai ein mannau a'n casgliadau diwylliannol hefyd gefnogi ymchwil a arweinir gan y gymuned.

### Ein dyhead:

**D18: Mae gan ddiwylliant ddull cydweithredol a hirdymor o gynllunio ymchwil a chasglu tystiolaeth.**



# 3.4 Gweithlu'r sector ddiwylliant

Mae diwylliant yn ffynhonnell bwysig o gyflogaeth, ac mae angen ystod o sgiliau ac arbenigedd proffesiynol i ddarparu gwasanaethau diwylliannol. Mae'r gweithlu diwylliannol yn amrywiol ac yn esblygu'n gyson, gan amrywio o ymarferwyr unigol i sefydliadau mawr sydd ar fwy nag un safle.

Mae pob elfen o’r ecosystem gymhleth hon yn cyfrannu at gyflwr a chydnerthedd y cyfan.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid cymdeithasol i hyrwyddo gwaith teg a sut mae’n cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol, llesiant, a pherfformiad sefydliadol gwell. Rydym yn annog cyflogwyr yng Nghymru, gan gynnwys ar draws y sectorau diwylliant, i fabwysiadu arferion ac ymddygiad sy’n gyson â gwaith teg, gan gynnwys drwy achredu fel cyflogwyr Cyflog Byw. Rydym yn parhau i hyrwyddo pwysigrwydd undebau llafur yn y gweithle, gan gydnabod eu bod yn cyfrannu at wella profiad gwaith, llais gweithwyr a chynrychiolaeth.[7]

Yn 2022, nododd yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon fod dros 14,500 o weithwyr yn cael eu cyflogi yn y sectorau celfyddydau, amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau[8]. Nid yw’r ffigur hwn yn cynnwys gwirfoddolwyr, sy’n nodwedd sylweddol o’r gweithlu diwylliant a threftadaeth. Nid yw ychwaith yn cynnwys ffigurau cyflogaeth ar gyfer y sector treftadaeth, yr amcangyfrifwyd ei fod yn cyflogi 30,000 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru mewn astudiaeth a gynhaliwyd yn 2010 (Valuing the Historic Environment).

Mae gweithwyr llawrydd a gweithwyr portffolio yn nodweddion allweddol o weithlu’r sector diwylliant, ac mae angen dull strategol ar y cyd o ddatblygu a chynnal gweithwyr llawrydd yn y sectorau diwylliant



a chreadigol. Dylai hyn gynnwys ymrwymiad i gefnogi gweithwyr llawrydd yng Nghymru lle bo hynny’n bosibl, i wella datblygiad sgiliau ac amodau gwaith, ac i gynyddu ein dealltwriaeth o’r gweithlu llawrydd yng Nghymru drwy gasglu data’n well.

Mae gwella cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y gweithlu ar bob lefel yn parhau i fod yn nod clir, yn yr un modd ag y mae mynd i’r afael â gwahaniaethau cyflog mewn perthynas â rhywedd, ethnigrwydd ac anabledd. Byddem yn annog datblygu a defnyddio canllawiau recriwtio cynhwysol i helpu’r sectorau i gyflawni’r nod hwn.

Mae rhai rhannau o’r sector diwylliant yn dibynnu’n llwyr ar wirfoddolwyr, gan gynnwys amgueddfeydd annibynnol a mudiadau celfyddydau a threftadaeth gymunedol ar lawr gwlad. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd gwirfoddolwyr a’r manteision a ddaw yn sgil gwirfoddoli.

Mae gan lawer o fudiadau ein sector bolisïau ac egwyddorion sydd wedi hen ennill eu plwyf ynghylch gweithio gwirfoddol, a gellid rhannu’r hyn a ddysgwyd yma yn ehangach ar draws y sectorau, ond mae bwlch yn bodoli yn y ffordd y mae’r sector diwylliant yn cydnabod ymdrechion gwirfoddolwyr. Ar hyn o bryd, nid oes dull cydlynol, ar draws sectorau o hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli. Mae cymhelliant dros wirfoddoli yn newid, ac mae recriwtio a chadw gwirfoddolwyr yn gallu bod yn her. Er mwyn mynd i’r afael â hyn, bydd angen i’r sector diwylliant fod yn hyblyg a datblygu cefnogaeth i wirfoddolwyr fel rhan o ddenu a chadw gwirfoddolwyr newydd.

Mae’n bwysig ein bod yn gweithio gyda’r sectorau addysg bellach ac uwch yng Nghymru i sicrhau bod addysgu a hyfforddiant priodol ar gael i ddiwallu anghenion y sectorau diwylliant. Mae lleoliadau myfyrwyr yn cynyddu profiad gwaith a chyfleoedd cyflogaeth i fyfyrwyr ac yn helpu sefydliadau i ddysgu o’r ymchwil ddiweddaraf, meithrin gallu, a denu talent newydd i’r gweithlu.

Mae prinder sgiliau penodol yn y sector diwylliant. Mae’r rhain yn amrywio o adeiladwyr arbenigol sy’n gyfarwydd ag anghenion adeiladau hanesyddol i sgiliau digidol, llyfrgellwyr arbenigol, curaduron, archifwyr a chadwraethwyr, ac arbenigwyr argyfwng hinsawdd a charbon. Mae’r sector celfyddydau yn ei chael yn fwyfwy anodd dod o hyd i gymorth technegol ar gyfer cynyrchiadau llwyfan a sgiliau arbenigol eraill. Mae ar y sector treftadaeth yng Nghymru angen cyflenwad cryf a medrus o archaeolegwyr, cadwraethwyr, arbenigwyr rheoli treftadaeth a chwmnïau adeiladu sy’n gallu cynnal ein hasedau hanesyddol a’r amgylchedd hanesyddol ehangach. Er ein bod yn cydnabod y cyfyngiadau ariannol tymor byr, rydym yn benderfynol y dylem ddiogelu, blaenoriaethu

7 www.legislation.gov.uk/cy/asc/2023/1/contents/enacted
8 Economic Estimates: Employment in DCMS sectors and Digital sector, January 2022 to December 2022. GOV.UK (www.gov.uk)



a meithrin datblygiad y sgiliau hyn yn ystod oes y blaenoriaethau strategol hyn.

Dywedodd rhanddeiliaid wrthym fod heriau o ran denu sgiliau iaith Gymraeg i’r sectorau mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, ac o ran cefnogi staff arbenigol i ddatblygu eu sgiliau proffesiynol yn barhaus a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am arloesi technolegol newydd, yn enwedig pan fydd lefelau staffio’n wan.

Mae datblygu gweithlu medrus yn gofyn am gynllunio gofalus a bwriadol dros gyfnod estynedig o amser. Mae creu rhwydwaith mwy cadarn o arbenigwyr yn gofyn am feddwl yn greadigol a gweithio mewn partneriaeth. Rhaid i ni ystyried cynllunio ar gyfer olyniaeth a chanfod ffyrdd newydd o ddenu a chadw sgiliau arbenigol yng Nghymru. Rhaid i ni hefyd ganolbwyntio ar y dyfodol, gan sicrhau ein bod yn cynllunio ar gyfer anghenion gweithlu ein sectorau yn y dyfodol yn ogystal â mynd i’r afael â’r heriau presennol.

### Ein dyhead:

**D19: Mae’r sector diwylliant yng Nghymru yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli, gyda gweithlu proffesiynol a medrus.**

## 3.5 Diwylliant a datblygu cynaliadwy

Mae diwylliant yn ffactor sy’n sbarduno datblygu cynaliadwy. Drwy ddulliau creadigol, gall diwylliant wella dealltwriaeth y cyhoedd o’r argyfwng hinsawdd a natur, gan ehangu ein gwybodaeth a’n safbwyntiau am gymhlethdod hyn, annog newid mewn ymddygiad, a datblygu atebion creadigol i osgoi canlyniadau gwaethaf newid yn yr hinsawdd. Rhaid i gynaliadwyedd fod yn edau aur sy’n rhedeg drwy galon yr hyn a wnawn.

Yn 2023, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith i weld sut gallai’r sector diwylliant fynd ati’n rhesymol i sicrhau cydymffurfiaeth â’r ddeddfwriaeth sero net mewn ffordd gost-effeithiol, sy’n briodol i’w hamgylchiadau. Drwy adolygu dull presennol y sector diwylliant o gyflawni’r targedau sero net a’r gweithgarwch ar fynd i’r afael â’r argyfwng hinsawdd a natur, byddwn yn nodi ac yn darparu’r adnoddau priodol a chymhellion perthnasol a phenodol i alluogi rhanddeiliaid yn y sector i wella eu cyfraniad at lesiant byd-eang. Drwy gasglu sylfaen gadarn o dystiolaeth am weithgarwch, gallwn ddysgu o arferion da sy’n digwydd ar draws y sector a rhoi newid cadarnhaol ehangach ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar y cydweithio a’r camau gweithredu a gyflawnwyd ar draws y sector drwy gyflawni Yr Amgylchedd Hanesyddol a Newid Hinsawdd yng Nghymru - Cynllun Addasu’r Sector 2020 a’r cynllun olynol. Mae Llywodraeth Cymru yn anelu at weithredu ar sail system gyfan gyda’n cynlluniau i wrthsefyll yr hinsawdd, gyda’r nod o fynd i’r afael â’r camau cyfunol, cyd-ddibynnol sydd eu hangen ar draws gwahanol feysydd polisi a rhanddeiliaid i feithrin y gallu i wrthsefyll yr hinsawdd

### Ein dyhead:

**D20: Mae’r sector diwylliant yn dangos arweinyddiaeth a chydweithio yn ei ddulliau gweithredu ar gyfer datblygu cynaliadwy, meithrin cadernid, a mynd i’r afael â phob agwedd ar argyfyngau hinsawdd a natur.**







## Sut y gwnaethom ddatblygu'r blaenoriaethau hyn

Mae datblygu blaenoriaethau strategol ar gyfer diwylliant yng Nghymru yn ymrwymiad yn ein Rhaglen Lywodraethu. Fe wnaethom addo ymgysylltu'n fanwl ac yn ystyrlon â sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth i ddatblygu'r blaenoriaethau strategol.

Yn 2022/23, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r blaenoriaethau hyn, fe wnaethom ymgysylltu â chynrychiolwyr y sectorau diwylliant yng Nghymru, a chyda chynrychiolwyr cymunedol, arbenigwyr digidol, staff yn ein cyrff diwylliannol cenedlaethol, partneriaid cymdeithasol a llunwyr polisïau i wella ein dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu'r sectorau dan sylw ac i ddeall eu dyheadau.

Fe wnaethom rannu fersiwn ddrafft gynnar o'r ddogfen hon â nifer cyfyngedig o randdeiliaid y sector er mwyn cael eu hadborth, ac yn 2024 fe wnaethom gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y blaenoriaethau.

Bu Grŵp Llywio yn monitro datblygiad y ddogfen hon.

## Ein Ffyrdd o Weithio

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu'r blaenoriaethau strategol hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rydym wedi edrych ar y sefyllfa tymor hir, wedi cynnwys pobl, wedi cydweithio â phartneriaid, wedi ystyried sut gallwn atal problemau, ac wedi sicrhau dull gweithredu integredig. Bydd y ffyrdd hyn o weithio yn parhau wrth i ni roi'r blaenoriaethau ar waith.

> "Mae diwylliant yn rhywbeth i bawb, yn ymwneud â phawb, ac yn cael ei greu gan bawb."

# Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a'r Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol

Mae'r tabl isod yn dangos pa Ddangosyddion Llesiant Cenedlaethol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y gall y blaenoriaethau a'n sectorau eu cefnogi, gan adlewyrchu'r egwyddorion datblygu cynaliadwy a gwneud cynnydd tuag at y nodau llesiant.

**Sut bydd y blaenoriaethau hyn yn cyfrannu at ddangosyddion cenedlaethol:**

| | Mae diwylliant yn dod â ni ynghyd | Cenedl diwylliant | Cydnerth a chynaliadwy |
|---|---|---|---|
| 15. Swm y gwastraff a gynhyrchir, nad yw'n cael ei ailgylchu, y pen | | | ● |
| 16. Canran y bobl mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn chwilio am waith parhaol) sy'n ennill o leiaf y Cyflog Byw gwirioneddol | | | ● |
| 17. Gwahaniaeth cyflog ar sail rhywedd, anabledd ac ethnigrwydd | ● | | ● |
| 19. Canran y bobl sy'n byw ar aelwydydd mewn amddifadedd materol | ● | | |
| 22. Canran y bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi ei mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran | | | ● |
| 23. Canran y bobl sy'n teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol | ● | | ● |
| 24. Canran y bobl sy'n fodlon â'u gallu i gyrraedd/ cael mynediad at y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt | ● | | |
| 26. Canran y bobl sy'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw | ● | ● | ● |
| 27. Canran y bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; bod pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch | ● | ● | |
| 28. Canran y bobl sy'n gwirfoddoli | ● | | ● |
| 29. Sgôr lles meddyliol cymedrig ar gyfer pobl | | ● | |
| 30. Canran y bobl sy'n unig | | ● | |
| 35. Canran y bobl sy'n mynychu neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn | ● | | |
| 36. Canran y bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy na dim ond ychydig o eiriau Cymraeg | ● | ● | ● |
| 39. Canran yr amgueddfeydd ac archifau sy'n cadw casgliadau archifol/ treftadaeth sy'n cyrraedd safonau achrededig y Deyrnas Unedig | | ● | |
| 40. Canran yr asedau amgylchedd hanesyddol dynodedig sydd mewn cyflwr sefydlog neu well | | | ● |
| 41. Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru | | | ● |
| 42. Allyriadau nwyon tŷ gwydr a briodolir i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru | | | ● |
| 46. Dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yng Nghymru | | ● | |
| 48. Canran y siwrneiau drwy gerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus | ● | | ● |
| 50. Statws cynhwysiant digidol | ● | | |